**Datganiad Preifatrwydd**

Mae'r Datganiad Preifatrwydd hwn yn nodi sut rydym yn diogelu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Rydym yn gofyn i chi roi gwybodaeth am renti at y dibenion canlynol:

- er mwyn i ni ddeall lefelau rhenti a natur y sector rhentu preifat yng Nghymru
- pennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol
- pennu Rhenti Cyfeirio Lleol
- prisio'r elfen llety ar gyfer rhai ceisiadau am Fudd-dal Tai
- prisio rhenti o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Rhenti
-

Mae dyletswydd statudol arnom i ddefnyddio data am renti at y dibenion hyn ond nid oes gennym bŵer statudol i gasglu'r wybodaeth. Felly, rydym yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth a ddarperir yn wirfoddol gennych, sy'n golygu, os ydych yn darparu unrhyw ddata personol, eich bod yn cydsynio iddynt gael eu defnyddio yn unol â'r datganiad hwn.

Bydd eich gwybodaeth am renti a'ch manylion cyswllt personol yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel Swyddogion Rhenti Cymru. Ni fydd neb y tu allan i Swyddogion Rhenti Cymru yn cael mynediad at eich data personol.

Mae crynodebau ystadegol o'ch data am renti yn cael eu defnyddio er mwyn llywio polisïau Llywodraeth Cymru. Darperir data dienw a chyfun am renti i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn cyfrifo gwahanol fynegeion, er enghraifft, mynegai prisiau defnyddwyr (cpiH).

Mae rhagor o wybodaeth am yr ystadegau a gyfrifir o'ch data am renti wedi'i chyhoeddi ar http://gov.wales/statistics-and-research/private-sector-rents/

Ni fydd eich data ar gael at ddefnydd masnachol (er enghraifft, at ddibenion marchnata). Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn ddibynadwy ac yn ddiweddar, rydym yn gofyn i chi:

- roi gwybodaeth gywir i ni;
- rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau, er enghraifft, newidiadau i'ch manylion cyswllt;
- rhoi caniatâd i ni gysylltu â chi yn rheolaidd, ar ôl cyfnod y cytunir arno, er mwyn diweddaru'r wybodaeth am yr eiddo rydych yn ei osod

Mae eich manylion cyswllt personol yn cael eu cadw gan Swyddog Rhenti Cymru er mwyn inni allu cysylltu â chi ynghylch unrhyw newidiadau i'ch manylion rhentu. Mae gennych hawl i wrthod caniatad inni ddefnyddio'r manylion personol hyn i gysylltu â chi ac mae gennych hefyd hawl i ofyn inni ddileu eich manylion personol o'n cronfa ddata.

Os hoffech wybod rhagor am:

- yr wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, a sut y gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw wallau;
- sut i dynnu eich caniatâd yn ôl i ni ddefnyddio eich data personol;
- cytundebau sydd rhyngom ni a sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth ddienw;
- ein cyfarwyddiadau ar gyfer staff ynghylch sut y dylent gasglu, defnyddio a dileu eich data personol; neu
- sut rydym yn mynd ati i wirio bod yr wybodaeth sydd gennym yn gywir ac yn ddiweddar
-

Anfonwch e-bost at RentOfficerHelpDesk@cymru.gsi.gov.uk neu ysgrifennwch at Y Rheolwr Gweithrediadau, Swyddogion Rhenti Cymru, Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ.

Os ydych am gwyno ynghylch sut rydym wedi ymdrin â'ch data personol, anfonwch e-bost at dataprotectionofficer@cymru.gsi.gov.uk neu ysgrifennwch at Y Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

I gael cyngor annibynnol am faterion ynghylch diogelu data, preifatrwydd a rhannu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy anfon e-bost at casework@ico.org.uk neu drwy ysgrifennu at First Contact Team, Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF